Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni

# Ymgynghoriad Cyhoeddus Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych

# Mai 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

## Cynnwys


Cefndir 3

Arolwg Ymgynghori Cyhoeddus 4

Crynodeb o'r Canlyniadau 4

Diwygiadau i'r Strategaeth Derfynol 8

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

## Cefndir

Gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019, gan ymrwymo i fod yn Gyngor di-garbon net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth.

Mabwysiadwyd Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor (2021/22 - 2029/30) ym mis Chwefror 2021. Bwriedir adolygu a diwygio'r strategaeth hon bob 3 blynedd a phwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu adborth ar gyfer y cyntaf o'r adolygiadau hyn i'n galluogi i lunio fersiwn wedi'i diweddaru o'r strategaeth.

Mi wnaethom gynnal arolwg cyhoeddus ar-lein ym mis Mai 2023 a digwyddiad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2023 yn gofyn am eich adborth ar nodau'r Cyngor i fod yn ecolegol gadarnhaol ac yn ddi-garbon net, a'ch syniadau chi am sut y gall y Cyngor eu cyflawni erbyn 2030. Roedd hefyd yn gyfle i gael adborth cychwynnol ar yr ardaloedd arfaethedig newydd i'w cynnwys yn y strategaeth ddiwygiedig hon yn ymwneud â chefnogi lleihau allyriadau carbon, cynnydd o ran amsugnad carbon ac adfer natur ar draws Sir Ddinbych, yn ogystal â chynyddu ein gallu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn Sir Ddinbych.

Drwy ddatblygu ar eich syniadau chi, rydym wedi cydweithio ag Aelodau a Swyddogion ar draws y Cyngor i ddatblygu Strategaeth y Cyngor ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22 – 2029/30) (Drafft wedi'i Ddiweddaru - Blwyddyn 3).

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

## Arolwg Ymgynghori Cyhoeddus

Cynhaliwyd arolwg i gasglu adborth ar fersiwn ddiwygiedig blwyddyn 3 o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol rhwng 22 Mawrth a 20 Mai 2024, gan ddefnyddio gwefan Sgwrs y Sir y Cyngor. Hysbysebwyd yr arolwg ar dudalennau 'Newyddion' y wefan, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn datganiad i'r wasg a anfonwyd at bapurau newydd lleol.

Roedd copïau wedi'u hargraffu o'r arolwg hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd lleol.

Hoffai'r Cyngor ddiolch i bawb sydd wedi buddsoddi amser ac ymdrech i ddarparu eich adborth. Amlinellir y canlyniadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adborth isod.

## Crynodeb o'r Canlyniadau

### Cwestiwn 1: Ydych chi eisiau i Gyngor Sir Ddinbych fabwysiadu'r Strategaeth Ddiwygiedig ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22-2029/30) (Drafft wedi'i Ddiweddaru - Blwyddyn 3)?

Amlinellir yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn y tabl isod yn ogystal â'r ganran o ran cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno bod arnynt eisiau i'r Cyngor fabwysiadu'r ddogfen.

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Ydw | 295 | 88% |
| Nac Ydw | 41 | 12% |
| **Cyfanswm** | **336** | **100%** |

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

## Cwestiwn 2: Beth ydych chi'n ei HOFFI am y Strategaeth Ddiwygiedig ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22 - 2029/30) (Drafft wedi'i Ddiweddaru - Blwyddyn 3)?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar ffurf blwch sylwadau agored.  Ceir crynodeb o'r themâu a'r cyfraniadau allweddol a ddadansoddwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn isod:

- Cynnydd yng nghwmpas y strategaeth gan gynnwys lleihau allyriadau carbon, cynnydd o ran amsugnad carbon ac adfer natur a gwytnwch yn erbyn risgiau
- Y bwriad i ystyried ymestyn yr opsiynau bwyd llysieuol / fegan / carbon isel a gynigir gan wasanaeth arlwyo ysgolion
- Mannau gwyrdd mewn tai cymdeithasol newydd:  Y cynnig yw cynnwys rhandiroedd a gofod ar gyfer natur ym mhob datblygiad tai cymdeithasol newydd
- Bwrdd Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd a'r bwriad i gyflwyno papur adolygu 12 mis i'r Cyngor Llawn bob blwyddyn.  Teimlwyd bod hyn yn dangos bod trefniadau monitro tryloyw ar waith
- Mae Cardiau Sgorio Hinsawdd wedi cael eu gweithredu a'u defnyddio i lywio camau
- Buddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni'r adeiladau, goleuadau a'r cerbydau sy'n eiddo i ac yn cael eu rheoli gan Sir Ddinbych.  Gallai'r cam hwn sicrhau elw ariannol da ar y buddsoddiad, yn ogystal â'r budd o ostwng allyriadau.
- Mae'n fuddiol lleihau gweithgarwch torri gwair mewn mannau gwyrdd yn yr haf os yw hynny'n lleihau costau rheoli cyffredinol heb gael effaith ar ddiogelwch y ffyrdd, er enghraifft, lleiniau priffyrdd.
- Ymarferol a hawdd ei ddeall
- Ymdrech i ymgorffori nodau ar draws ardaloedd a gweithio gyda pherchnogion tir
- Ymdrech i gynnwys rhagor o ddatrysiadau ynni carbon isel e.e. treialu lorïau  casglu gwastraff hydrogen
- Hoffi'r ffaith bod camau'n cael eu gwahanu fesul blwyddyn (cynllun gweithredu)
- Hoffi'r tablau llawn gwybodaeth a'r nodau mesuradwy
- Hoffi'r cam i ddatgarboneiddio Cronfa Bensiynau Clwyd

- Hoffi'r cam i ymgorffori rhandiroedd a gofod ar gyfer natur ar draws tir y Cyngor
- Tryloywder da o ran darparu'r strategaeth drwy adolygiadau rheolaidd
- Ymrwymiad ac uchelgais y Cyngor

## Cwestiwn 3: Beth NAD ydych chi'n ei hoffi am y Strategaeth Ddiwygiedig ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22 - 2029/30) (Drafft wedi'i Ddiweddaru - Blwyddyn 3)?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar ffurf blwch sylwadau agored. Ceir crynodeb o'r themâu a'r cyfraniadau allweddol a ddadansoddwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn isod:

- Y teitl - Awgrymwyd nad yw'r teitl presennol yn ddigon cryf ac mai ychydig iawn o bobl sy'n defnyddio ac yn deall y term 'ecolegol'. Awgrymwyd 'Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych' neu 'Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd - Ein Strategaeth Hinsawdd a Natur' fel teitl newydd
- Yr hyd - teimlir bod y ddogfen braidd yn hir i'r cyhoedd ei darllen. Nid yw'r ffeithluniau'n ddigon manwl. Cais am fersiwn 'hawdd ei darllen' neu fersiwn i bobl ifanc
- Cysoni cynlluniau lliw siartiau cylch
- Mae wedi cymryd dros flwyddyn i gwblhau'r adolygiad hwn o'r strategaeth ac nid yw'n ymddangos bod y Cyngor yn ymateb i argyfwng
- Allyriadau'r gadwyn gyflenwi: mae angen rhagor o eglurhad o ran beth sydd wedi'i gynnwys yn yr allyriadau hyn, y camau a gaiff eu cymryd a'r rheswm dros y diffyg cynnydd
- Mae'r gostyngiadau mewn allyriadau carbon yn isel: mae angen rhagor o eglurhad mewn perthynas â'r diffyg cynnydd cyffredinol o ran gostwng carbon
- Gofynnwyd am restr weledol o'r syniadau / awgrymiadau a gyflwynwyd a rhestr o'r rhai a fabwysiadwyd
- Rhagor o eglurhad o ran awgrymiadau blaenorol a newydd a sut defnyddiwyd y rhain i lywio'r ddogfen ddiwygiedig

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

- Cais i gael gweld yr adroddiad a grëwyd yn dilyn y digwyddiad ymgynghori â'r cyhoedd ac opsiynau eraill i'w hystyried ar gyfer digwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol
- Rhagor o eglurder o ran storio carbon a graffiau. Teimlwyd nad oedd hyn yn ddigon clir i bobl gyffredin. Mae angen defnyddio iaith blaen yn yr eglurhad er mwyn i'r cyhoedd fedru ei ddeall.
- Gofynnwyd am ragor o eglurhad o ran targedau a chyllidebau
- Mae angen gwneud mwy i helpu i ddiogelu gwrychoedd a chynefinoedd 'gwyllt' e.e. eithin a llwyni. Pryd fydd hyn yn cael ei gyflawni? A oes modd ei ymestyn i berchnogion tai preifat?
- Argyfwng Hinsawdd y DU - Cardiau Sgorio'r DU: Cais i sicrhau fod y Cyngor yn defnyddio'r sefydliad hwn
- Pryder am y costau ariannol
- Mae angen rhagor o fewnbwn gan breswylwyr a sefydliadau perthnasol
- Rhagor o fioamrywiaeth mewn ardaloedd trefol
- Mae'n anodd gwneud digon, problem fyd-eang
- Diffyg gofod arbennig ar gyfer natur a rhandiroedd mewn datblygiadau
- Angen rhagor o ynni adnewyddadwy mewn ardaloedd trefol
- Rhagor o gyfranogiad gan Gynghorwyr Sir
- Mae'r diffyg gostyngiadau carbon hyd yma'n pwysleisio maint yr her

## Cwestiwn 4: Unrhyw sylwadau eraill?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar ffurf blwch sylwadau agored. Mae'r themâu a'r cyfraniadau allweddol a ddadansoddwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

- Cais am siart cylch ar gyfer allyriadau tiriogaethol yn 2021 / 22
- Cwestiwn ynghylch a fydd y Cyngor yn ymuno â Larder Cymru yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, i gefnogi bwyd lleol mewn ysgolion a gwasanaethau arlwyo eraill a ddarperir gan y Cyngor?

## Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

- Gofynnwyd 'Pam na ellir cynnwys mannau gwyrdd ar gyfer natur a rhandiroedd ym mhob datblygiad - tai preifat ac adeiladau o bob math?
- Canmoliaeth am gymryd yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol o ddifri
- Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gweithredu ar unwaith
- Gobeithiwyd mai Cymru fyddai'r genedl gyntaf i gyflawni'r Ras i Sero
- Gofynnwyd am ragor o gefnogaeth i ffermwyr lleol gyda'r uchelgais hwn
- Sicrhau fod y cynnydd, gan gynnwys yr heriau a'r diffygion, yn cael eu hamlinellu'n glir - egluro'r targed a'r llwybrau hysbys
- Blaenoriaethu camau yn y strategaeth i wneud y camau hyn yn rhai CAMPUS (cyflawnadwy, amser wedi'i bennu, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol)
- Sicrhau fod Cardiau Sgorio Hinsawdd yn cael eu defnyddio i lywio a chyfarwyddo gweithredoedd
- Cafwyd sylwadau hefyd gan ymatebwyr a oedd o'r farn na ddylai'r argyfwng hinsawdd fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor

### Diwygiadau i'r Strategaeth Derfynol

O ganlyniad i'r ymatebion a'r adborth i'r arolwg, mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu hymgorffori yn, neu'n cael eu harchwilio ar gyfer, fersiwn derfynol y strategaeth a gaiff ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei mabwysiadu ym mis Gorffennaf 2024.

| Adborth / Thema | Ymateb awgrymedig / newidiadau i'w gwneud |
|---|---|
| Cais i gynnwys siart cylch ar gyfer allyriadau tiriogaethol yn 2021 / 22 | Bydd yn y fersiwn derfynol |

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

| **Adborth / Thema** | **Ymateb awgrymedig / newidiadau i'w gwneud** |
|---|---|
| A fyddwch yn ymuno â Larder Cymru yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, i gefnogi bwyd lleol mewn ysgolion a gwasanaethau arlwyo eraill a ddarperir gan y Cyngor? | Cam gweithredu i ymchwilio i'r geiriad angenrheidiol a'i gynnwys yn nogfen y strategaeth |
| Y cais i gynnwys rhandiroedd a gofod ar gyfer natur ym mhob datblygiad newydd | I'w drafod gyda chydweithwyr cynllunio a bioamrywiaeth - bydd polisi cynllunio'n gorchymyn beth sydd ei angen, ond byddwn yn ystyried sut y gellir annog hyn - ac yn gweithio i gynnwys y geiriad angenrheidiol yn nogfen y strategaeth |
| Cais i newid y teitl - Awgrymwyd nad yw'r teitl presennol yn ddigon cryf ac mai ychydig iawn o bobl sy'n defnyddio ac yn deall y term 'ecolegol'. Awgrymwyd 'Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych' neu 'Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd - Ein Strategaeth Hinsawdd a Natur' fel teitl newydd | Aros am benderfyniad- Cymeradwyo newid y teitl i 'Strategaeth Hinsawdd a Natur Sir Ddinbych' yn fewnol |

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

| **Adborth / Thema** | **Ymateb awgrymedig / newidiadau i'w gwneud** |
|---|---|
| Yr hyd: - mae'r ddogfen braidd yn hir i'r cyhoedd ei darllen. Nid yw'r ffeithluniau'n ddigon manwl. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu fersiwn i bobl ifanc neu fersiwn hawdd ei darllen gan sicrhau fod y ddogfen yn dal i gydymffurfio â Safonau Hygyrchedd.<br><br>Byddwn yn archwilio opsiynau i greu crynodeb gweithredol er mwyn darparu trosolwg lefel uchel, gyda dolenni i gael rhagor o wybodaeth. |
| Dylai cynlluniau lliw'r siartiau cylch fod yn gyson. | Bydd yn y fersiwn derfynol |
| Sicrhau fod testun a siartiau'n glir e.e. camgymeriad yn Siart 7. | Bydd yn y fersiwn derfynol |
| Mae wedi cymryd dros flwyddyn i gwblhau'r adolygiad hwn o'r strategaeth ac nid yw'n ymddangos bod y Cyngor yn ymateb i argyfwng | Nodwyd.  Mae hyn wedi cael ei oedi yn sgil newidiadau yn y tîm. |

## Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

| Adborth / Thema | Ymateb awgrymedig / newidiadau i'w gwneud |
|---|---|
| Allyriadau'r gadwyn gyflenwi: rhagor o eglurhad o ran beth sydd wedi'i gynnwys yn yr allyriadau hyn, y camau a gaiff eu cymryd a'r rheswm dros y diffyg cynnydd | Byddwn yn ymhelaethu ar hyn yn y fersiwn derfynol ac yn cynnwys crynodeb o'r gadwyn gyflenwi a/neu grynodeb o allyriadau fesul categori |
| Mae gostyngiadau allyriadau carbon yn isel: mae angen rhagor o eglurhad o ran y cynnydd | Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y ffigurau adrodd a'r heriau diweddaraf wedi cael ei chynnwys yn yr Atodiadau ac fe fydd yn cael ei hymestyn ar gyfer y fersiwn derfynol o'r strategaeth. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd hefyd wedi'i chynnwys yn y newyddlen chwe-misol (crëwyd yr un diweddaraf ym mis Mai 2024) |
| Rhestr weledol o'r syniadau / awgrymiadau a gyflwynwyd a rhestr o'r rhai a fabwysiadwyd | Mae pob awgrym, a gymeradwywyd gan wasanaethau, wedi cael eu cynnwys yn y strategaeth. Mae'r camau a gwblhawyd wedi cael eu cynnwys fel Atodiad |

## Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

| Adborth / Thema | Ymateb awgrymedig / newidiadau i'w gwneud |
|---|---|
| Cais i gael gweld yr adroddiad a grëwyd yn dilyn y digwyddiad ymgynghori â'r cyhoedd ac opsiynau eraill i'w hystyried ar gyfer digwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol | Bydd yr adroddiad ymgynghori'n cael ei rannu gyda phawb sydd wedi gofyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am raglen hinsawdd a natur y Cyngor ac fe fydd hefyd yn cael ei uwchlwytho ar y wefan ymgynghori, ynghyd â'r ddogfen hon. |
| Rhagor o eglurhad o ran awgrymiadau blaenorol a newydd a sut defnyddiwyd y rhain i lywio'r ddogfen ddiwygiedig | Nodwyd. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu. |
| Rhagor o eglurder o ran storio carbon a graffiau. Teimlwyd nad oedd hyn yn ddigon clir i bobl gyffredin. Mae angen defnyddio iaith blaen yn yr eglurhad er mwyn i'r cyhoedd fedru ei ddeall. | Nodwyd. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu. |
| Gofynnwyd am ragor o eglurhad o ran targedau a chyllidebau | Mae'r heriau o ran cyflawni'r targed hwn wedi cael eu hamlinellu yn y strategaeth. Fodd bynnag, nid ydym wedi diwygio'r targedau hyn ac mae ein huchelgais yn parhau'r un fath. |

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

| **Adborth / Thema** | **Ymateb awgrymedig / newidiadau i'w gwneud** |
|---|---|
| Mae angen gwneud mwy i helpu i ddiogelu gwrychoedd a chynefinoedd 'gwyllt' e.e. eithin a llwyni. Pryd fydd hyn yn cael ei gyflawni? A oes modd ei ymestyn i berchnogion tai preifat? | Bydd hyn yn cael ei drafod gyda gwasanaethau Cefn Gwlad a chydweithwyr perthnasol eraill, ond byddwn yn ystyried sut y gellir annog hyn - ac yn cynnwys y geiriad angenrheidiol yn nogfen y strategaeth |
| Cyfraniad tuag at helpu Cymru i fod y genedl gyntaf i gyflawni'r Ras i Sero | Nodwyd ac ymchwilio |
| Cais am ragor o gefnogaeth i ffermwyr lleol gyda'r uchelgais hwn | Mae hyn wedi cael ei nodi a'i gynnwys fel rhan o gwmpas estynedig y strategaeth i ddylanwadu ar leihau allyriadau carbon, cynnydd o ran amsugnad carbon, adfer natur a gwytnwch yn erbyn risgiau ar draws y sir. |
| Sicrhau fod y cynnydd, gan gynnwys yr heriau a'r diffygion, yn cael eu hamlinellu'n glir | Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y fersiwn derfynol - mae graffiau ychwanegol wedi'u cynnwys yn yr atodiad. Eglurir y targed a'r llwybrau hysbys ymhellach |

# Dywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth Ddiwygiedig

| **Adborth / Thema** | **Ymateb awgrymedig / newidiadau i'w gwneud** |
|---|---|
| Blaenoriaethu camau yn y strategaeth i wneud y camau hyn yn rhai CAMPUS (cyflawnadwy, amser wedi'i bennu, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) | Mae hyn wedi cael ei nodi a bydd y tîm yn gweithio i weithredu hyn unwaith y bydd y strategaeth ddiwygiedig wedi cael ei mabwysiadu'n llwyddiannus |
| Sicrhau fod Cardiau Sgorio Hinsawdd yn cael eu defnyddio i lywio a chyfarwyddo gweithredoedd | Mae hyn wedi cael ei nodi, a bydd meysydd a nodwyd fel rhai sy'n galw am weithredu wedi'u cynnwys yn y fersiwn derfynol |